# Gweithgaredd 7

## Taflen adnoddau 1

## Fersiwn crynodeb o'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol

**1** Cawson ni ein geni'n rhydd ac yn gyfartal, a dylen ni drin pobl eraill yn yr un ffordd.

**2** Mae gyda ni'r hawliau hyn i gyd yn y Datganiad, pwy bynnag rydyn ni, o ble rydyn ni'n dod neu mewn beth rydyn ni'n ei gredu.

**3** Mae gyda ni'r hawl i fywyd, i fod yn rhydd ac i deimlo'n ddiogel.

**4** Nid oes gan unrhyw un yr hawl i'n gwneud ni'n gaethweision. Ni allwn wneud unrhyw un arall yn gaethwas i ni.

**5** Does gan neb yr hawl i'n brifo, i'n poenydio na'n bychanu.

**6** Mae gan bawb yr hawl i gael eiu ddiogelu gan y gyfraith.

**7** Mae'r gyfraith yr un peth i bawb. Mae'n rhaid iddi ein trin ni i gyd yn deg.

**8** Gall pob un ohonom ofyn i'r gyfraith ein helpu ni pan na chawn ein trin yn deg.

**9** Does gan neb yr hawl i'n rhoi yn y carchar, nac ein hanfon i ffwrdd o'n gwlad, heb resymau da.

**10** Os cawn ni ein cyhuddo o dorri'r gyfraith, mae gyda ni'r hawl i brawf teg a chyhoeddus.

**11** Ddylai neb gael y bai am wneud rhywbeth nes bod prawf ei fod wedi ei wneud.

**12** Does gan neb yr hawl i fynd i mewn i'n cartref, agor ein llythyrau, nac ein poeni ni neu'n teuluoedd heb reswm da.

**13** Mae gan bob un ohonom yr hawl i fynd lle bynnag y mynnom yn ein gwlad ein hun, ac i deithio dramor fel y dymunwn.

**14** Os bydd rhywun yn ein brifo ni, mae gyda ni'r hawl i fynd i wlad arall i ofyn am amddiffyniad.

**15** Mae gan bob un ohonom yr hawl i berthyn i wlad.

**16** Pan fyddwn ni'n ddigon hen yn ôl y gyfraith, mae gyda ni'r hawl i briodi a chael teulu.

**17** Mae gan bawb yr hawl i berchen ar bethau neu eu rhannu nhw.

**18** Mae gyda ni i gyd yr hawl i'n meddyliau ein hunain ac i gredu mewn unrhyw grefydd.

**19** Rydyn ni'n gallu meddwl am beth bynnag rydyn ni eisiau, dweud beth rydyn ni'n ei feddwl a rhannu syniadau a gwybodaeth gyda phobl eraill.

**20** Mae gyda ni i gyd yr hawl i gwrdd â'n ffrindiau a gweithio gyda'n gilydd mewn heddwch i amddiffyn ein hawliau. Dydy e ddim yn iawn i orfodi rhywun i ymuno â grŵp.

**21** Mae gan bob un ohonom yr hawl i gymryd rhan yn llywodraeth ein gwlad. Dylai pob oedolyn gael yr hawl i ddewis eu harweinyddion ei hun.

**22** Dylai'r lle rydyn ni'n byw ein helpu i ddatblygu a gwneud y gorau o'r holl fanteision (diwylliant, gwaith, lles cymdeithasol) sydd ar gael. Mae cerddoriaeth, celf, crefft a chwaraeon i bawb eu mwynhau.

**23** Mae gan bob oedolyn yr hawl i swydd, yr hawl i gyflog teg am eu gwaith, ac i ymuno ag undeb llafur.

**24** Mae gyda ni i gyd yr hawl i orffwys ac amser rhydd.

**25** Mae gyda ni i gyd yr hawl i safon bywyd da, gan gynnwys digon o fwyd, dillad, tai a chymorth meddygol os ydyn ni'n sâl. Mae gyda mamau a phlant a phobl sy'n hen, yn ddi-waith, neu'n anabl yr hawl i gael gofal.

**26** Mae gyda ni i gyd yr hawl i addysg.

**27** Mae gyda ni i gyd yr hawl i rannu celf a gwyddoniaeth ein cymuned, a'r pethau da maen nhw'n eu gwneud.

**28** Mae'n rhaid cael heddwch a threfn er mwyn amddiffyn yr hawliau a'r rhyddid hyn, ac rydyn ni'n gallu eu mwynhau yn ein gwlad ni a ledled y byd.

**29** Mae dyletswydd arnom dros bobl eraill, a dylem ddiogelu eu hawliau a'u rhyddid.

**30** Ni all neb gymryd yr hawliau a'r rhyddid hyn oddi arnom.

Dyma fersiwn syml o Ddatganiad Cyffredinol Hawliau Dynol gan Amnest Rhyngwladol DU. Mae wedi ei ddatblygu er mwyn galluogi plant iau i ddeall yr hawliau yn y Datganiad. I weld fersiwn llawn y Datganiad ewch i www.un.org/en/documents/index.shtml

# Gweithgaredd 7

## Taflen adnoddau 2

## Darlun Yn eich Stryd chi




© Dan Jones